LEG-15-2002 (min)

**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION**

**Dyddiad:** 11 Mehefin 2002

**Amser:** 9.30am

**Lleoliad**: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

| **Presenoldeb:** | |
|---|---|
| Ron Davies | (Llafur) |
| Janice Gregory | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Val Lloyd | (Llafur) |
| Gwenda Thomas | (Llafur) |

| Swyddogion | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Mick Bates, Glyn Davies, Owen John Thomas

**Eitem 1: Ethol Cadeirydd Dros Dro**

1.1 Etholwyd Dr Dai Lloyd fel cadeirydd yn absenoldeb Mick Bates.

**Eitem 2:Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi: LEG-14-2002 (min)**

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mai 2002.

**Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd**

3.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau newydd, Val Lloyd, Janice Gregory a Gwenda Thomas i'r Pwyllgor.

**Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC483 – Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Addysg Bellach (Cymru) 2002**

4.1 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflym.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

4.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC483 (Adroddiad).

**LC484 – Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) 2002**

4.4 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflym.

4.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

4.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC484 (Adroddiad).

**LC485 – Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2002**

4.7 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflym.

4.8 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

4.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC485 (Adroddiad).

**LC494 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2002**

4.10 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

4.11 Mynegwyd pryder gan yr Aelodau ynglŷn â'r defnydd o'r weithdrefn weithredol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

4.12 Dywedodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol ei fod ar ddeall bod y weithdrefn weithredol yn cael ei defnyddio am fod Awdurdodau Lleol yn dymuno i'r Rheoliadau ddod i rym ar unwaith. Ychwanegodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol ei fod yn eithaf bodlon bod y Rheoliadau o fewn y pwerau galluogi.

4.13 Roedd yr Aelodau yn pryderu, fodd bynnag, y gellid ystyried bod y diwygiadau a wnaethpwyd yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl o'r pwerau galluogi. Newidiwyd y Rheoliadau yn sylweddol drwy gyflwyno'r hawl i gadeirydd cyfarfod y weithrediaeth neu bwyllgor o'r weithrediaeth ganiatáu i eitem fusnes frys gael ei hystyried er nad oedd manylion yr eitem wedi bod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd. Codwyd hyn yng nghyd-destun y ffaith bod yr Aelodau yn amlwg o'r farn mai rheoliad 5, fel y'i geiriwyd yn wreiddiol, oedd y ddarpariaeth fwyaf priodol o ran gweithredu'r pwerau galluogi ac ni roddwyd ystyriaeth i'r rheoliadau diwygio naill ai yn y pwyllgor pwnc nac yn y cyfarfod llawn. Cytunodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol y dylid ymgorffori safbwyntiau'r aelodau yn adroddiad drafft y Pwyllgor er mwyn eu cyfeirio at sylw'r Gweinidog priodol o dan Reol Sefydlog 11.4 **Gweithredu: Ymgynghorydd Cyfreithiol/Clerc.**

**LC495 – Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion o Drydydd Gwledydd) (Cymru) 2002**

4.15 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

4.16 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

4.17 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC495 (Adroddiad).

**LC496 – Rheoliadau TSE (Cymru) 2002**

4.18 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

4.19 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr

Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

4.20 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC496 (Adroddiad).

**Eitem 5: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

5.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 25 Mehefin 2002.